# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Hydref 2015

Amser: 08.45 - 12.03

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3254

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)<br>Peter Black AC<br>Christine Chapman AC<br>Mike Hedges AC<br>Alun Ffred Jones AC<br>Julie Morgan AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Nick Bennett, Ombwdsmon Cymru Cyhoeddus Cymru<br>Susan Hudson, Swyddfa Ombwdsmon Cymru Cyhoeddus Cymru<br>David Meadon, Swyddfa Ombwdsmon Cymru Cyhoeddus Cymru<br>Martin Warren, Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr<br>Jason Piper, Cymdeithas y Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig<br>Kay Powell, Cymdeithas y Gyfraith |

| | |
|---|---|
| | Richard Beech, Glamorgan Law LLP |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Richard Bettley (Ymchwilydd)<br>Helen Jones (Ymchwilydd)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Lakshmi Narain - Cynghorydd Technegol |

## 1 Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2016-17: Trafod yr adroddiad drafft

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft â rhai newidiadau.

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones AC.

2.3 Datganodd Peter Black AC y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Mae'r Aelod yn Gynghorydd ar Gyngor Dinas a Sir Abertawe

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

## 4 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2016-17: Sesiwn dystiolaeth 1

4.1 Bu'r Aelodau'n craffu ar waith Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, David Meaden, Cyfrifydd Ariannol, a Susan Hudson, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu ar amcangyfrif Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2016-17.

4.2 Cytunodd yr Ombwdsmon i roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r mathau o gŵynion tai a ddaeth i law.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2016-17: Trafod y dystiolaeth

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a nodwyd y bydd adroddiad drafft yn cael ei baratoi i'w drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 5 Tachwedd 2015.

## 7 Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 6

7.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Martin Warren, Cyfarwyddwr Cymru, Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr a Jason Piper, Uwch-reolwr - Cyfraith Trethi a Busnes, Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig.

## 8 Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 7

8.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Kay Powell, Cynghorydd Polisi, Cymdeithas y Gyfraith, a Richard Beech, Partner, Glamorgan Law LLP.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

9.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 10 Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru): Trafod y dystiolaeth

10.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.